

## **Polisi Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chyfle Cyfartal – Gorffennaf 2018**

### **Cyflwyniad**

Mae S4C wedi ymrwymo i hybu ac integreiddio cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ei busnes ac yn cydnabod manteision denu, cadw a chymell gweithlu amrywiol. Mae'n annog amgylchedd lle caiff y gweithlu eu gwerthfawrogi a lle maent i gyd yn cyfrannu at ei nod, sef darparu gwasanaeth rhaglenni amrywiol ac uchel ei ansawdd.

Fel corff cyhoeddus mae gennym ystod eang o ymrwymadau cyfreithiol sy'n ymwneud â chydaddoldeb gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) 2011.

Mae dyletswydd gyffredinol ar S4C o dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010 (y "Ddeddf") i roi sylw dyledus i'r angen am:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig<sup>1</sup> berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; a
- meithrin perthnasoedd da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r personau nad ydynt yn ei rhannu.

Caiff y ddyletswydd gyffredinol hon ei hategu gan ddyletswyddau penodol a nodir yn y rheoliadau a wnaed yn dilyn y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i:

- gyhoeddi gwybodaeth am sut y mae S4C yn perfformio'r ddyletswydd gyffredinol; a
- chyhoeddi amcanion penodol a mesuradwy y mae S4C yn credu y dylai eu cyflawni er mwyn hybu amcanion y ddyletswydd gyffredinol.

Yn ogystal â hynny mae gennym ymrwymadau penodol mewn perthynas â chydaddoldeb dan Ddeddf Cyfathrebu 2003.

Yn ogystal â chydymffurfio â'r oblygiadau statudol, mae S4C yn cofleidio cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyd-destun ehangach, gan werthfawrogi a chlodfori'r ystod o nodweddion a phrofiadau, arddulliau cyfathrebu, ieithoedd, cefndiroedd addysgol, gyrfaedd neu brofiadau bywyd sydd gan unigolion.

Mae S4C yn cydnabod ac yn parchu cydraddoldeb ac amrywiaeth, a sut y gall hyn effeithio ar werthoedd ac ethos y gweithle. Mae S4C yn annog diwylliant lle caiff yr holl staff eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae gan bob unigolyn dalentau unigryw, ac mae S4C yn hybu datblygiad sgiliau er mwyn cynyddu cyfraniad pob unigolyn i'r eithaf.

Mae S4C yn cydnabod y cyfraniad a wneir gan nifer o sefydliadau o ran codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ym myd darlledu, a rhannu arfer da mewn materion sy'n ymwneud â chyflogaeth a chynhyrchu. Mae S4C yn gweithio gyda darlledwyr a sefydliadau eraill – yn cynnwys y CDN - i sicrhau ei bod yn ymwybodol o arfer da cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### **Amcanion**

Nod y polisi hwn yw sicrhau y bydd S4C, wrth gyflawni'i gweithgareddau, yn gwneud y canlynol:

- hybu cyfle cyfartal ar draws ei holl weithgareddau;

<sup>1</sup> Mae adran 149 o'r Ddeddf yn amddiffyn 8 o nodweddion gwarchoddedig sef oedran, anabled, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

- hybu cysylltiadau da rhwng ei holl staff;
- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- creu amodau lle caiff yr holl staff eu trin â'r un faint o barch a lle na wahaniaethir yn annheg yn erbyn unrhyw aelod o staff yn unrhyw agwedd ar fywyd yn y gwaith.

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Mae S4C yn croesawu ac yn cymell ceisiadau am swyddi oddi wrth grwpiau allai fod wedi eu tangynrychioli. Gweithredir egwyddorion cystadleuaeth agored a theg a phenderfynir ar benodiadau ar sail teilyngdod.

## **Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff S4C yn ogystal ag unrhyw un sy'n gweithio i neu ar ran S4C.

Mae gan bob unigolyn gyfrifoldeb am y canlynol:-

- cefnogi a gweithredu nodau ac egwyddorion y polisi hwn trwy dderbyn y rhoddir cyfle cyfartal i bawb ym mhob agwedd ar fywyd yn y gwaith a thrwy hybu egwyddorion cynhwysiant a chyfle cyfartal i bawb;
- sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin â pharch ac urddas;
- sicrhau nad yw ei (h)ymddygiad a'i (g)weithredoedd yn gyfystyr â gwahaniaethu, aflonyddu, bwlio na fictimeiddio yn unrhyw ffordd;
- meithrin diwylliant lle mae cydymffurfio â'r polisi hwn yn cael ei ystyried yn rhan annatod o waith S4C;
- hysbysu Adnoddau Dynol os ydynt yn anabl neu yn dod i fod yn anabl er mwyn i S4C allu ystyried unrhyw addasiadau rhesymol i adeiladau neu drefniadau gweithio i sicrhau nad yw'r aelod o staff dan anfantais a'i f/bod yn gallu cyflawni'i d(d)yletswyddau'n llawn, i'r graddau bo' hynny'n ymarferol. Bydd gwybodaeth o'r fath ond yn cael ei phrosesu i'r graddau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ymrwymadau S4C a chaiff ei chadw a'i chynnal yn unol â'i Pholisi Diogelu Data.

Bydd Adnoddau Dynol yn gyfrifol am y canlynol:-

- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r polisi hwn;
- sicrhau bod yr holl weithdrefnau mewn perthynas â recriwtio staff, dethol staff, dyrchafu staff, disgyblu staff ac ymdrin â chwynion gan staff yn cael eu cyflawni'n unol ag egwyddorion y polisi hwn;
- darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth mewn perthynas ag egwyddorion y polisi hwn;
- darparu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y polisi'n cael ei ddeall a'i roi ar waith;
- sicrhau bod unrhyw achos o dorri'r polisi hwn, neu hysbysiad ynghylch torri'r polisi hwn gan staff yn cael ei drin fel mater difrifol ac yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Cwynion S4C;
- monitro effeithiolrwydd y polisi hwn yn rheolaidd.

## **Egwyddorion Cyffredinol**

Er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd, mae S4C yn cydnabod yr angen i:

- ddileu neu leihau'r anfanteision sydd gan bersonau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- cymryd camau i ateb anghenion personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol sy'n wahanol i anghenion personau nad ydynt yn ei rhannu;
- annog personau sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol i gyfranogi mewn bywyd cyhoeddus neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae nifer anghymesur o isel o bobl sy'n rhannu'r nodwedd yn cyfranogi.

Er mwyn hybu amrywiaeth, cyfle cyfartal a thriniaeth deg, bydd S4C yn:-

- meithrin diwylliant sy'n golygu bod cydymffurfio â'r polisi hwn a'i hyrwyddo'n cael eu hystyried fel rhan annatod o waith S4C, yr ymlynir wrth y polisi ar bob adeg ac y caiff ei gymhwyso mewn ffordd deg a chyson;
- creu amgylchedd gwaith cynhwysol, a pharchus, sy'n hybu cysylltiadau da ymhlith yr holl staff. Mae S4C yn credu'n arbennig yn yr angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth;
- sicrhau bod ei hymrwymiad i driniaeth gyfartal yn cwmpasu pob agwedd ar gyflogaeth gan gynnwys recriwtio, cyfleoedd hyfforddi, hyrwyddo, cyfleusterau cymdeithasol, amodau gwaith ac wrth reoli a datblygu staff;
- sicrhau fod pob aelod o staff yn llwyr ymwybodol o'r egwyddorion yn y polisi hwn a'u bod yn deall ac yn eu cofleidio;
- monitro ac adolygu'i pholisïau a'i gweithdrefnau er mwyn sicrhau nad ydynt yn gweithredu'n wahaniaethol;
- monitro ac yn dileu unrhyw wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall anghyfreithlon o fewn y gweithle;
- cyfleu'i pholisïau i'r holl ymgeiswyr am swyddi, aelodau staff, gweithwyr llawrydd, gweithwyr asiantaeth a thrydydd partion sy'n gweithio ar ei rhan;
- sicrhau bod hysbysebion swyddi'n hygyrch i bobl anabl a grwpiau ethnig lleiafrifol er mwyn sicrhau amrywiaeth yn ei gweithdrefnau recriwtio;
- sicrhau bod gweithdrefn ar gyfer datrys cwynion am wahaniaethu'n weithredol ac yn cael ei chyfleu i'r rheiny y gall fod arnynt angen ei defnyddio;
- adolygu'i hymrwymiaidau a'r hyn a gyflawnwyd, cynllunio ffyrdd o'u gwella a rhoi gwybod i staff am gynnydd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol;
- adnabod y swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol a datgan beth yw'r gofynion mewn hysbysiadau swyddi;
- sicrhau bod yr holl bobl sy'n gyfrifol am benodi staff yn S4C yn gallu asesu'r angen am ruglder yn y Gymraeg cyn penodi i unrhyw swydd yn S4C;
- ystyried yr argymhellion ym mhecyn cymorth Ofcom i ddarllledwyr mewn perthynas â chyflogaeth a hyfforddiant a chyflwyno adroddiadau i Ofcom, o leiaf unwaith y flwyddyn, ar ein trefniadau ar gyfer cydraddoli cyfle mewn perthynas â chyflogaeth ac ar weithrediad ac effeithiolrwydd trefniadau o'r fath.

Mewn perthynas â phobl anabl bydd S4C yn gwneud y canlynol:-

- rhoi cyfweiliad i bob ymgeisydd anabl sy'n cwrdd â lleiafswm y meini prawf ar gyfer swydd wag a'u hystyried ar sail eu galluoedd;
- gwneud pob ymdrech pan fo cyflogai'n dod i fod yn anabl i sicrhau ei f/bod yn aros mewn cyflogaeth ac yn gallu cyflawni'i d(d)yletswyddau'n llawn;
- sicrhau bod dull yn bodoli i drafod, ar unrhyw adeg gydag aelodau staff anabl, yr hyn y gall S4C ac y gallant hwy ei wneud i sicrhau eu bod yn datblygu ac yn defnyddio'u galluoedd;
- cymryd camau i sicrhau bod pob aelod staff yn datblygu'r lefel briodol o ymwybyddiaeth am anabledd sy'n angenrheidiol i gyflawni'r ymrwymiaidau a nodir yn y polisi hwn;
- gwneud addasiadau rhesymol i adeiladau neu i drefniadau gweithio pan eu bod yn rhoi aelodau staff anabl dan anfantais;
- sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ond o leiaf yn unol â gofynion cyfreithiol, bod adeiladau a chyfleusterau S4C yn hygyrch i bob aelod staff ac i eraill sy'n gweithio yn y sefydliad;
- sicrhau bod gan leoliadau hyfforddi allanol gyfleusterau i bobl anabl (pan fo'u hangen) yn ogystal â dolenni clywed a.y.b.

Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) yn gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar sail oedran nad oes modd ei gyfiawnhau, ac yn gwahardd aflonyddu ac erlid unigolion o unrhyw oedran, boed yn ifanc neu yn hen. Mae'r Ddeddf yn amddiffyn cyflogeion a gweithwyr eraill, ar wahân i'r rheiny sydd yn hunangyflogedig.

Bydd S4C yn adrodd yn flynyddol wrth Ofcom ar ei pherfformiad mewn perthynas ag anabledd a chyfle cyfartal.

Bydd S4C yn cyhoeddi gwybodaeth am sut y mae S4C yn perfformio'r ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a bydd yn amlinellu amcanion y dylid eu cyflawni er mwyn hybu'r ddyletswydd gyffredinol.

### **Ar gyfer Rhaglenni a Chynnwys S4C**

Nid yw Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi oblygiadau ar S4C o ran ei gwasanaeth cynnwys. Er hyn bydd S4C yn gweithio gyda chynhyrchwyr i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o gydraddoldeb ac amrywiaeth ar y sgrin ar draws ystod mor eang â phosib o raglenni a chynnwys S4C.

Bydd S4C yn sicrhau bod y cynnwys y mae'n ei chomisiynu'n rhoi adlewyrchiad o'r gymuned a'r gwylwyr y mae'n eu gwasanaethu, a bydd yn sefydlu fframwaith er mwyn monitro ei chynnwys.

Bydd S4C yn gweithio gyda'i phartneriaid yn y sector gynhyrchu er mwyn sicrhau bod eu gweithgareddau hwy eu hunain, fel cynhyrchwyr cynnwys ac fel cyflogwyr, yn gyson â pholisi S4C. Bydd Comisiynwyr S4C yn amlygu hyn yn eu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r sector.

Bydd S4C yn annog y sector i fabwysiadu canllawiau arfer da, a bydd yn sicrhau fod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael ar safle cynhyrchu S4C ([www.s4c.cymru/cynhyrchu](http://www.s4c.cymru/cynhyrchu)).

### **Gwylwyr a Defnyddwyr S4C**

Mae S4C wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau mynediad ([www.s4c.cymru/c\\_access.shtml](http://www.s4c.cymru/c_access.shtml)) a chymorth mewn perthynas â'i rhaglenni a'i chynnwys. Mae hyn yn ymestyn i'r gwasanaeth Gwifren Gwylwyr, gwasanaethau dysgwyr Cymraeg ([www.s4c.cymru/dysgwyr](http://www.s4c.cymru/dysgwyr)), deunydd cymorth mewn perthynas â rhaglenni ([www.s4c.cymru/cymorth](http://www.s4c.cymru/cymorth)) a gwybodaeth ar gyfer ei gwylwyr a'i defnyddwyr.

Bydd S4C yn sicrhau ei bod yn codi ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd sydd wedi ei briodoli i a'r gweithgareddau a gyflawnwyd ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o weithgareddau cyfathrebu S4C.

Bydd S4C yn sicrhau bod ei gwasanaethau'n adlewyrchu ac yn addasu at ofynion ei gwylwyr a'i defnyddwyr. Bydd S4C yn parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid a rhoi cymorth iddynt i sicrhau a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### **Adolygu**

Bydd S4C yn adolygu'r polisi hwn o dro i dro er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.

Mae'r polisi hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae modd cael copi print bras ohono wrth wneud cais amdano i Adnoddau Dynol. Yn ôl y gofyn, bydd S4C yn trefnu hefyd bod copi braille a/neu fersiwn sain o'r polisi hwn yn cael ei baratoi.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch yr ymrwymiad hwn, neu'r broses o'i weithredu, yn y lle cyntaf at Adran Adnoddau Dynol S4C.